Gweddïwn dros: Esgobaeth Warri - Eglwys Anglicanaidd Nigeria
Ardal Gweinidogaeth Merthyr Tudful, y Parchedig Marc-Ashton Walford, arweinydd
Dydd Sadwrn 18 Ebrill:
Actau 6:1-7; Salm 33:1-5, 18-22; Ioan 6:16-21
Gweddïwn dros: Esgobaeth Washington – Eglwys Esgobol Unol Daleithiau America
Ardal Gweinidogaeth De Morgannwg, y Parchedig Andrew James, arweinydd

Ein Stori Lawen
Yr ydym yn Eglwys Blwyf Gymraeg yng nghanol y ddinas ac yr ydym wedi bod yn rhan o fywyd, bwrlwm a thwf Caerdydd ers mwy na chanrif a hanner.

- Mynegwn ein ffydd Gristnogol yn llawen trwy ein haddoliad, ein gwasanaeth a'n cymdeithas mewn awyrgylch sy'n groesawgar, gofalgar a theuluol ei naws.
- Yr ydym yn meithrin ein plant a'n pobl ifanc trwy weithgareddau'r Ysgol Sul a'r gwasanaethau teuluol, a thrwy ein gwasanaethau litwrgaidd, y geiriau a'r gerddoriaeth cawn ein hysbrydoli i addoli a gwasanaethu'r Duw byw.

Os am ragor o wybodaeth am Eglwys Dewi Sant:
Ficer/Vicar: Y Parchedig Ganon Dyfrig C. Lloyd Rhif Ffôn: 029 2056 6001
E-bost: dyfriglloyd@hotmail.com
Curad / Curate: Y Parchedig Athro Lloyd Llewellyn-Jones
Y Wardeniaid/Churchwardens:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Delyth Davies – Ffôn: 077 61 118722
E-bost: delyth.d@yahoo.com
Cyfarwyddwr Cerdd:
Ieuan Jones, B. Mus - Ffôn: 074 29 012781
E-bost: ieuanjones@hotmail.co.uk
Trysorydd:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Ysgrifennydd Cymorth Rhodd:
Graham Carson - Ffôn: 07712387203
Ysgrifennydd Cyngor Plwyf:
Marian Fairclough - Ffôn: 07579763030
E-bost: faircloughmarian@gmail.com

Esgobaeth Llandaf + Deoniaeth Caerdydd

EGLWYS DEWI SANT
www.eglwysdewisant.org.uk

CROESO i bawb sydd yn ymweld â'r eglwys heddiw. Cofiwch ymuno â ni am baned a sgwrs yn y neuadd ar ôl y gwasanaeth.

12 Ebrill 2026
Sul y Pasg Bach

10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân
Darllenwyr: Gerallt Hughes / Dawn King
Emynau: 92 (Victory); 208 (St Thomas 43); 93 (St Fulbert); 103 (Monkland)

6.00pm Yr Hwyrol Weddi a Phregeth
Salm: 30:1-5
Darlleniadau: Daniel 6:6-23
Marc 15:46-16:8
Darllenwyr: Mair Matthews / Jennifer Taylor
Emynau: 112 (Beverly); 98 (Angel's Song 147); 105 (Skerton 535)

YN EIN GWEDDÏAU
Cofiwn yn ein gweddïau y cleifion: Sylvia Beecher, Dilys Hicks, Eleri Hughes, Jean Jones, Gwenda Williams ac am bawb sy'n gofalu amdanynt.

Gweddïwn hefyd dros bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist a thros bawb y cofiwn am eu marwolaeth yr adeg hon o'r flwyddyn. Dyro iddynt, O Arglwydd, orffwys tragwyddol a llewyrched goleuni gwastadol arnynt.

Yn yr Eglwys:

Nos Fawrth 14 Ebrill 2026
Dim ymarfer Côr

Dydd Mercher 15 Ebrill 2026
10.30am Y Cymun Bendigaid

Dydd Sul 19 Ebrill 2025
Pasg III
8.00am Y Cymun Bendigaid
10.30am Y Cymun Bendigaid ar Gân ac Ysgol Sul
6.00pm Yr Hwyrol Weddi a Phregeth

PWYSIG: YMARFER CÔR
Diolch yn fawr i'n cyfarwyddwr cerdd, Ieuan ac aelodau'r Côr am eu gwaith yn y gwasanaeth Gwener y Groglith a Dydd y Pasg. Ni fydd ymarfer côr am y pythefnos nesaf. Mwynhewch y seibiant. *Y Ficer.*

FESTRI'R PASG
Gyda'r Pasg, daw Festri'r Pasg, sef cyfarfod blynyddol EDS. Eleni fe'i cynhelir dydd **Sul 26 Ebrill** yn syth ar ôl y Foreol Weddi am 10.30am. Byddwn yn anfon yr adroddiad blynyddol atoch dros e-bost yn ystod yr wythnos hon.

CYNGOR PLWYFOL EGLWYSIG
Os hoffech wasanaethu ar y Cyngor Plwyfol Eglwysig dros y flwyddyn nesaf a wnewch chi roi eich enw ar y daflen sydd yng nghefn yr eglwys gan gofio cael enwebydd ac eilydd. Bydd hyn yn arbed amser yn y Festri ei hun. Os hoffech ragor o wybodaeth o beth mae'n ei olygu i fod yn aelod o'r CPE mae croeso i chi gael gair gyda'r Ficer neu'r un o'r wardeniaid, os gwelwch yn dda.

COFFI A CHLONC
Cynhelir ein bore Coffi a Chlonc ar gyfer siaradwyr newydd dydd Sadwrn 18 Ebrill rhwng 10.30am a 12.00pm. Croeso cynnes i bawb.

CLOCH DEWI
Os hoffech gyfrannu erthygl, lluniau neu bwt bach i'r rhifyn nesaf o Gloch Dewi a fyddech garediced ag anfon unrhyw gyfraniadau at Wyn Mears: wyn@wynmears.com erbyn dydd Iau 30 Ebrill.

ROTA BLODAU YR ALLOR
Mae nifer o fylchau sydd angen eu llenwi ar y rota blodau. Os hoffech roi blodau ar yr allor a wnewch chi roi eich enw o dan eich dewis Suliau (dau Sul ar y tro). Mae'r rota i'w gweld ar y wal nesaf at brif borth yr Eglwys. Os hoffech ragor o wybodaeth mynnwch air â Dilys Jones.

AGOR YR EGLWYS
Yr ydym wedi dechrau agor yr Eglwys ar ddyddiau Mercher ac ar y trydydd bore Sadwrn tan ddiwedd mis Hydref rhwng 11.30am a 1.30pm. **Mae angen mwy o wirfoddolwyr arnom i helpu.** Os ydych ar gael i helpu gyda'r gwaith gwarchod, boed hynny ond yn achlysurol, a fyddech garediced â rhoi eich enw ar y daflen sydd yng nghefn yr eglwys neu fynnu gair â Rhys Jones.

CYMDEITHASU MIS EBRILL
Diolch i bawb sydd wedi rhoi eu henwau i ddod ar ein hymweliad â Chastell Ffŵl-y-mwn dydd Iau 23 Ebrill. Pris yr ymweliad fydd £30 yn cynnwys te/coffi ar ôl cyrraedd, taith dywysedig a sgwrs, bwffe ysgafn i ginio gyda mwy o de/coffi. Mae croeso i bawb grwydro o amgylch y gerddi wedyn, os bydd y tywydd yn caniatáu! **Heddiw yw'r diwrnod olaf** i chi rhoi eich enw ar y daflen os hoffech chi ddod.

Y GANOFLAN GLYD
Bydd EDS ar ddyletswydd yn y Tabernacl y **Sul nesaf, 19 Ebrill**. Gofynnir i bawb sydd wedi cytuno i wirfoddoli i gyrraedd y Tabernacl erbyn 1.30pm.

LLEISIAU O TU HWNT I'R BEDD
Mae grŵp ysgrifennu '*Living Lines'* wedi bod yn adrodd storïau am gyn-drigolion Caerdydd a'r ardal ers 2018. Mae'r cymeriadau yn dod yn fyw wrth i actorion A48 actio'r sgriptiau mewn gwisgoedd cyfnod. Cynhelir perfformiadau yn EDS ar **17 ac 18 Ebrill 2026**. Dyma gyfle i chi nodi'r digwyddiad yn eich dyddiaduron. Mae'r tocynnau nawr ar werth drwy "Ticketsource".

CYNGERDD YN Y GADEIRLAN – EIN STORI, EIN CÂN
Bydd côr Cambrensis yn gynnal cyngerdd yn Eglwys Gadeiriol Llandaf ar y thema Ein Stori, Ein Cân sef dathliad o'n treftadaeth Gristionogol Gymreig nos Sadwrn 25 Ebrill am 7.30pm. Bydd Lleuwen Steffan, y canwr gwerin enwog yn perfformio yn ystod y noson. Mae modd prynu tocynnau trwy Eventbrite a dilyn y ddolen isod: https://www.eventbrite.co.uk/e/our-story-our-songein-stori-ein-can-tickets-1979303305468

GWARCHOD YR EGLWYS
Yn gwarchod yr eglwys dydd Mercher 15 Ebrill fydd: Lynette Allen ac Eryl Fuge

GWEDDÏAU'R SUL
- Igreja Anglicana de Mocambique e Angola
- Ardal Gweinidogaeth Afon Nedd, y Parchedig Ganon Lynda Newman, arweinydd

Darlleniadau a Gwyliau

Dydd Llun 13 Ebrill:
Actau 4:23-31; Salm 2; Ioan 3:1-8
Gweddïwn: Esgobaeth Wandi – Talaith Eglwys Esgobol De Swdan
Ardal Gweinidogaeth Bro Noddfa Newydd, y Parchedig Nicholas Gill, arweinydd

Dydd Mawrth 14 Ebrill:
Actau 4:32-37: Salm 93; Ioan 3:7-15
Gweddïwn dros: Esgobaeth Wangaratta, Eglwys Anglicanaidd Awstralia
Ardal Gweinidogaeth y Barri, y Parchedig Ganon Zoë King, arweinydd

Dydd Mercher 15 Ebrill: Padarn
Actau 5:17-26; Salm 34:1-8; Ioan 3:16-21
Gweddïwn dros: Esgobaeth Wanglei – Talaith Eglwys Esgobol De Swdan
Ardal Gweinidogaeth Dwyrain y Fro, y Parchedig Ganon Martyn Davies

Dydd Iau 16 Ebrill:
Actau 5:27-33; Salm 34:15-22; Ioan 3:31-36
Gweddïwn dros: Esgobaeth Wanyjok, Talaith Eglwys Esgobol De Swdan
Ardal Gweinidogaeth Arfordir Treftadaeth Morgannwg, y Parchedig Edwin Counsell, arweinydd

Dydd Gwener 17 Ebrill:
Actau 5:34-42; Salm 27:1-6, 13, 14; Ioan 6:1-15